# Cwestiynau Cyffredin – Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Beth yw ystyr SASS?

Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

## Rwy'n wasanaeth sydd wedi'i atal yn wirfoddol, a oes angen i mi gwblhau'r SASS?

Nac oes. Os yw'r gwasanaeth wedi cael ei atal yn wirfoddol ar hyn o bryd, nid oes angen cyflwyno SASS.

## Pwy ddylai gwblhau'r SASS?

Mae'n ofyniad cyfreithiol i bob lleoliad a gofrestrodd cyn 31 Rhagfyr 2025 gwblhau SASS. Gall unrhyw Unigolyn Cyfrifol, Person Cofrestredig neu Swyddog Sefydliadol sydd wedi cwblhau ei wiriadau adnabod gydag AGC ac wedi actifadu ei Gyfrif AGC Ar-lein gwblhau'r SASS.

## Fi yw'r Unigolyn Cyfrifol ond rwy'n absennol o'r gwasanaeth ar hyn o bryd. A allaf gael mynediad i'r SASS a'i gwblhau?

Gallwch. Os yw'r Unigolyn Cyfrifol yn absennol, gall gael mynediad i'r SASS a'i gyflwyno o hyd.

## Sut mae cwblhau'r SASS?

Rhaid i'r SASS gael ei gwblhau a'i gyflwyno drwy AGC Ar-lein. Nid oes opsiwn papur ar gael.

## Pryd y bydd cyfnod cwblhau'r SASS yn agor ac yn cau i ddarparwyr?

Bydd cyfnod cwblhau'r SASS yn agor ar 13 Chwefror 2026 ac yn cau ar 27 Mawrth 2026.

## Mae nifer o leoliadau wedi'u cofrestru fel rhan o'n cwmni. A all mwy nag un person gael mynediad i'r SASS?

Gall nifer o ddefnyddwyr gael mynediad i'r SASS ar unrhyw adeg benodol er mwyn helpu darparwyr i'w gwblhau'n effeithlon. Os bydd defnyddiwr ar-lein arall wrthi'n cwblhau'r SASS, bydd neges yn ymddangos ar y sgrin yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr pwy arall sy'n golygu'r SASS ar y pryd.Os bydd nifer o ddefnyddwyr yn cwblhau'r ffurflen, bydd AGC Ar-lein yn atal yr un defnyddiwr rhag defnyddio'r un gwasanaeth. Mae'r rheol hon yn atal y wybodaeth sydd eisoes wedi'i hychwanegu rhag cael ei llygru.

## Nid wyf wedi cwblhau Adolygiad o Ansawdd y Gofal – beth sydd angen i mi ei wneud?

Rhaid i chi gwblhau'r adran hon os cafodd eich gwasanaeth ei gofrestru ar 31 Ionawr 2024 neu cyn hynny. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r SASS nes y byddwch wedi cwblhau'r adran hon. Os nad ydych wedi cwblhau Adolygiad o Ansawdd y Gofal eleni, gallwch lanlwytho dogfen Word yn nodi'r rhesymau dros hynny, a'ch cynlluniau i'w gwblhau. Caiff hyn ei drafod yn ystod eich arolygiad nesaf.

## Pam mae'r neges 'Ni Ellir Dangos y Dudalen' yn ymddangos wrth glicio ar y botwm 'Agor SASS' ar yr hafan?

Os nad os gan ddefnyddiwr ar-lein y caniatâd perthnasol i gael mynediad i'r SASS, e.e. cynorthwyydd ar-lein neu Unigolyn Cyfrifol/Person Cofrestredig/Swyddog Sefydliadol nad yw wedi actifadu ei gyfrif AGC Ar-lein, bydd y neges hon yn ymddangos pan fydd yn agor y SASS. Ffoniwch ni ar 0300 7900 126 a dewiswch opsiwn 4.

## A oes angen i mi gwblhau'r SASS cyfan ar yr un pryd?

Nac oes. Gellir cwblhau'r SASS dros gyfnod o amser. Gellir cadw'r SASS yn ystod neu ar ddiwedd pob sesiwn.

## A allaf argraffu copi o'r SASS cyn i mi ei gyflwyno?

Gallwch. Gallwch argraffu copi o'r SASS wedi'i gwblhau cyn iddo gael ei gyflwyno drwy'r adran 'Datgan a Chyflwyno'. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gallu argraffu copi nes y bydd holl gwestiynau'r SASS wedi'u hateb.

## A allaf gael mynediad i SASS a gyflwynwyd yn flaenorol?

**Gallwch. Gweler Hafan SASS eich cyfrif**

## A fyddaf yn gallu cael mynediad i wybodaeth y SASS ar ôl iddo gael ei gyflwyno?

**Ni fyddwch yn gallu cael mynediad i ffurflen y SASS i'w golygu ar ôl y dyddiad cau, hyd yn oed os bydd wedi cael ei dechrau ond heb ei chyflwyno. Ar ôl y dyddiad cau, os bydd y SASS wedi'i gwblhau, byddwch yn gallu cael mynediad i fersiwn PDF o'r SASS drwy Hafan SASS eich cyfrif ar-lein.**

## Rwyf wedi cyflwyno'r SASS ond rwyf wedi sylwi bod rhywfaint o'r wybodaeth yn anghywir. A all AGC ei ail-agor?

**Gall. Ar yr amod nad yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SASS wedi mynd heibio, gall AGC ail-osod y SASS i'r fersiwn ddrafft, gan eich galluogi i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen.**

## Rwy'n Unigolyn Cyfrifol sydd wedi cwblhau'r SASS ar gyfer fy ngwasanaeth ond nid yw Unigolion Cyfrifol gwasanaethau eraill wedi cwblhau eu datganiadau nhw. A allaf gyflwyno datganiad fy ngwasanaeth yn unig?

**Na allwch. Mae'r SASS yn ddatganiad sy'n seiliedig ar y darparwr yn hytrach na datganiad sy'n seiliedig ar y gwasanaeth, felly rhaid i ddatganiad pob gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r darparwr gael ei gwblhau er mwyn i'r SASS gael ei gyflwyno. Rhaid i bob adran o'r SASS gael ei chwblhau'n llwyr cyn y gall un o gynrychiolwyr y darparwr gyflwyno'r datganiad cyfan.**

## Sut mae gwybod a yw AGC wedi cael fy SASS wedi'i gwblhau?

**Wrth gyflwyno'r SASS drwy AGC Ar-lein, byddwch yn gweld neges ar y sgrin yn cadarnhau ei fod wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Byddwch hefyd yn cael e-bost yn cadarnhau bod y trafodyn wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Os na fyddwch wedi cael e-bost, dylech wirio eich ffolder e-bost sothach. Bydd eicon SASS yn arddangos gyda 'Statws' 'Wedi'i gyflwyno' a 'Dyddiad Cyflwyno'.**